

Gareth Owens LL.B Barrister/Bargyfreithiwr
Chief Officer (Governance)
Prif Swyddog (Llywodraethu)



CS/NG

9 Rhagfyr 2021

Maureen Potter 01352 702322
maureen.potter@flintshire.gov.uk

At: Cyng David Wisinger (Cadeirydd)

Cynghorwyr: Mike Allport, Bernie Attridge,
Chris Bithell, Derek Butler, Chris Dolphin,
Ian Dunbar, Veronica Gay, Gladys Healey,
Patrick Heesom, Christine Jones,
Richard Jones, Richard Lloyd, Ted Palmer,
Mike Peers, Neville Phillips a Owen Thomas

Annwyl Syr / Fadam

RHYBUDD O GYFARFOD ANGHYSBELL
PWYLLGOR CYNLLUNIO
DYDD MERCHER, 15 RHAGFYR, 2021 am **1.00 PM**

Yn ddiffuant,

Robert Robins
Rheolwr Gwasanaethau Democraidaidd

Sylwch: Bydd hwn yn gyfarfod dros y we. Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>

Os oes gennych unrhyw ymholiadau, cysylltwch ag aelod o'r Tîm Gwasanaethau Democraidaidd ar 01352 702345.

R H A G L E N

1 YMDDIHEURIADAU

2 DATGAN CYSYLLTIAD

3 SYLWADAU HWYR

4 COFNODION (Tudalennau 5 - 8)

Pwrpas: I gadarnhau, fel cofnod cywir gofnodion y cyfarfod ar 24 Tachwedd 2021.

5 EITEMAU I'W GOHIRIO

6 MAE ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)

Mae adroddiad y Prif Swyddog (Cynllunio, Amgylchedd ac Economi) yn amgaeedig.

ADRODDIAD Y PRIF SWYDDOG (CYNLLUNIO, AMGYLCHEDD AC ECONOMI)
AR GYFER Y PYLLGOR CYNLLUNIO 15 RHAGFYR 2021

Rhif yr eitem	Cyfeirnod y Ffeil	DISGRIFIAD
<u>Ceisiadau sy'n cael eu hadrodd er penderfyniad (C= adroddiad er cymeradwyaeth, G= adroddiad er gwrthodiad)</u>		
6.1	063331 – C	Cais Llawn - Estyniad unllawr arfaethedig i du blaen 1 Herriot Grove, Ewlo (Tudalennau 9 - 22)
6.2	061271 – C	Cais llawn - Newid defnydd tir er mwyn ehangu'r safle presennol i ddarparu hyd at 6 o Leiniau Sipsiwn a Theithwyr ym Maes Carafanau White Acres, Gwern Lane, Yr Hôb. (Tudalennau 23 - 42)
6.3	062898 – C	Materion a Gadwyd yn ôl - yn dilyn Cymeradwyaeth Amlinellol cyfeirnod 061125 yn RAF Sealand, South Camp, Welsh Road, Sealand (Tudalennau 43 - 78)

Sylwch y gall fod 10 munud o egwyl yn y cyfarfod hwn os yw'n para fwy na dwy awr

Nodyn Gweithdrefnol ar redeg cyfarfodydd

Bydd y Cadeirydd yn agor y cyfarfodydd ac yn cyflwyno eu hunain.

Bydd nifer o Gynghorwyr yn mynychu cyfarfodydd. Bydd swyddogion hefyd yn mynychu cyfarfodydd i gyflwyno adroddiadau, gyda swyddogion Gwasanaethau Democrataidd yn trefnu a chynnal y cyfarfodydd.

Gofynnir i bawb sy'n mynychu i sicrhau bod eu ffonau symudol wedi diffodd a bod unrhyw sain gefndirol yn cael ei gadw mor dawel â phosib.

Dylai'r holl feicroffonau gael eu rhoi "ar miwt" yn ystod y cyfarfod a dim ond pan fyddwch yn cael eich gwahodd i siarad gan y Cadeirydd y dylid eu rhoi ymlaen. Pan fydd gwahoddedigion wedi gorffen siarad dylen nhw roi eu hunain yn ôl "ar miwt".

Er mwyn mynegi eu bod nhw eisiau siarad bydd Cynghorwyr yn defnyddio'r cyfleuster 'chat' neu yn defnyddio'r swyddogaeth 'raise hand' sy'n dangos eicon codi llaw electronig. Mae'r swyddogaeth 'chat' hefyd yn gallu cael ei ddefnyddio i ofyn cwestiynau, i wneud sylwadau perthnasol ac yn gyfle i'r swyddog gynghori neu ddiweddarau'r cynghorwyr.

Bydd y Cadeirydd yn galw ar y siaradwyr, gan gyfeirio at aelod etholedig fel 'Cynghorydd' a swyddogion yn ôl eu teitl swydd h.y. Prif Weithredwr neu enw. O bryd i'w gilydd mae'r swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn egluro pwyntiau gweithdrefnol neu'n awgrymu geiriad arall ar gyfer cynigion er mwyn cynorthwyo'r Pwyllgor.

Os, a phan y cynhelir pleidlais, mi fydd y Cadeirydd yn egluro mai dim ond y rheiny sy'n gwrthwynebu'r cynnig/cynigion, neu sy'n dymuno ymatal a fydd angen mynegi hynny drwy ddefnyddio'r swyddogaeth 'chat'. Bydd y swyddog sy'n cynghori'r Cadeirydd yn mynegi os bydd y cynigion yn cael eu derbyn.

Os oes angen pleidlais fwy ffurfiol, bydd hynny yn ôl galwad enwau – lle gofynnir i bob Cynghorydd yn ei dro (yn nhrefn yr wyddor) sut mae ef / hi yn dymuno pleidleisio.

Yng nghyfarfodydd Pwyllgorau Cynllunio a Chyngor Sir mae amseroedd siaradwyr yn gyfyngedig. Bydd cloch yn cael ei chanu i roi gwybod i'r siaradwyr bod ganddyn nhw funud ar ôl.

Bydd y cyfarfod yn cael ei ffrydio'n fyw ar wefan y Cyngor. Bydd recordiad o'r cyfarfod ar gael yn fuan ar ôl y cyfarfod ar <https://flintshire.publici.tv/core/portal/home>